Cyllid & Thollau EM

Datganiad gwybodaeth am yr ystâd

Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022.

Llenwch y fersiwn hon o'r ffurflen hon dim ond pan fu farw'r person:

- ar neu ar ôl 6 Ebrill 2011 ac
- ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021

Llenwch y ffurflen hon os oedd domisil (cartref parhaol) y person sydd wedi marw ('yr ymadawedig') yn y DU ar ddyddiad y farwolaeth, ac mae gwerth gros yr ystâd ar gyfer Treth Etifeddiant yn llai na, neu'n hafal i'r canlynol:

- y terfyn ystadau wedi'u heithrio
- dwywaith y terfyn ystadau wedi'u heithrio, ac amgaeir ffurflen IHT217 'Cais i drosglwyddo'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio ar gyfer ystadau wedi'u heithrio'
- £1miliwn ac nid oes Treth Etifeddiant i'w thalu oherwydd eithriad priod, partner sifil neu elusen

Cadwch gopi o'r ffurflen hon ar gyfer eich cofnodion am na all Cyllid a Thollau EM (CThEM) roi copi i chi rhywbryd yn y dyfodol.

Nodiadau

Darllenwch y nodiadau yn llyfryn IHT206(2011) i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.

Help

I gael rhagor o wybodaeth neu help:

- ewch i www.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900
- os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU deialwch +44 300 200 1900.

Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae 'Siarter CThEM' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn y disgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Ynglŷn â'r person a fu farw

1.1 **Teitl** – nodwch Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

1.2 **Cyfenw**

1.3 **Enw cyntaf**

1.4 **Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

1.5 **Statws priodasol neu bartneriaeth sifil?**

Yn briod neu mewn partneriaeth sifil ☐

Sengl ☐

Wedi ysgaru neu'n gyn-bartner sifil ☐

Yn weddw neu'n bartner sifil sy'n goroesi ☐

1.6 **Swydd**

1.7 **Rhif Yswiriant Gwladol** os yn hysbys

Ynglŷn â'r ystâd

2 **Yn ystod y 7 mlynedd cyn iddo/iddi farw, a wnaeth yr ymadawedig:**

unrhyw roddion neu drosglwyddiadau eraill sy'n gyfanswm o fwy na £3,000 y flwyddyn, ac eithrio rhoddion arferol ar gyfer pen-blwyddi, y Nadolig, priodasau neu bartneriaethau sifil?

Naddo ☐ Do ☐

neu

ildio'r hawl i elwa o unrhyw asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth, a gafodd eu trin fel rhan o'i ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant?

Naddo ☐ Do ☐

Os ydych wedi ateb 'Do' i unrhyw ran o'r cwestiwn hwn, rhowch werth trethadwy'r rhoddion ym mlwch 9.1.
Ond os yw'r gwerth hwn yn fwy na £150,000, neu os nad yw'r asedion yn gymwys fel 'trosglwyddiadau arbennig', **peidiwch â pharhau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd angen i chi lenwi ffurflen IHT400 'Cyfrif y Dreth Etifeddiant' yn lle hynny.**

Ynglŷn â'r ystâd parhad

3 **A wnaeth yr ymadawedig wneud unrhyw un o'r canlynol:**

rhodd, ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986, pan fod wedi parhau i elwa o, neu wedi bod â rhywfaint o hawl i elwa o, neu i ddefnyddio'r ased cyfan neu ran ohono?

Naddo ☐ Do ☐

neu

rhodd, ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986, pan na chymerodd y person a oedd yn cael y rhodd feddiant llawn ohono?

Naddo ☐ Do ☐

neu

dewis ar ffurflen IHT500 'Election for Inheritance Tax to apply to asset previously owned' na ddylai tâl Treth Incwm fod yn berthnasol ar gyfer:

- asedion yr oeddi yn berchen arnynt yn flaenorol, ac iddynt barhau i ddal budd ynddynt
- cyfraniad yr ymadawedig i bris prynu asedion a gaffaelwyd gan berson arall, ond i'r ymadawedig barhau i ddal budd ynddynt?

Naddo ☐ Do ☐

Os ydych wedi ateb 'Do' i unrhyw ran o'r cwestiwn hwn, **peidiwch â pharhau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen IHT400 yn lle hynny.**

4 **A oedd gan yr ymadawedig yr hawl i gael y budd o unrhyw asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth y cawsant eu trin fel rhan o'i ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant?**

Nac oedd ☐ Oedd ☐

Os ydych wedi ateb 'Oedd', ac roedd gan yr ymadawedig:

- hawl i fudd o ymddiriedolaeth sengl, ac
- roedd gwerth yr asedion yn yr ymddiriedolaeth honno, wedi eu trin fel bod yn rhan o'i ystâd, yn llai na neu'n hafal i £150,000, rhowch werth asedion yr ymddiriedolaeth ym mlwch 9.3. Ond os oedd y gwerth yn fwy na £150,000, neu os oedd mwy nag un ymddiriedolaeth, **peidiwch â pharhau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen IHT400 yn lle hynny.**

5 **A oedd yr ymadawedig yn berchen ar, neu'n elwa o unrhyw asedion y tu allan i'r DU?**

Nac oedd ☐ Oedd ☐

Os ydych wedi ateb 'Oedd', dylech gynnwys gwerth yr asedion tramor ym mlwch 9.5. Ond os yw gwerth yr asedion tramor yn fwy na £100,000, **peidiwch â pharhau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen IHT400 yn lle hynny.**

6 **A wnaeth yr ymadawedig dalu unrhyw bremiymau ar bolisïau yswiriant bywyd nad oeddent er ei fudd ei hunan, neu nad oedd yn talu i'r ystâd, ac a wnaeth brynu blwydd-dal ar unrhyw adeg?**
Anwybyddwch unrhyw bolisïau a dalwyd i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi

Naddo ☐ Do ☐

Os ydych wedi ateb 'Do', **peidiwch â pharhau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen IHT400 yn lle hynny.**

7 **A oedd gan yr ymadawedig unrhyw fath o drefniant pensiwn ar wahân i Bensiwn y Wladwriaeth?**

Nac oedd ☐ Oedd ☐

Os ydych wedi ateb 'Nac oedd', ewch i'r adran nesaf 'Asedion yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth'.

8 **A newidiodd neu a waredodd yr ymadawedig ei bensiwn yn y 2 flynedd cyn iddo farw?**
Anwybyddwch unrhyw bensiynau a dalwyd i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi

Naddo ☐ Do ☐

Os ateboch 'Do' i'r cwestiwn hwn, **peidiwch â pharhau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen IHT400 yn lle hynny.**

Asedion yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth

Dylech gynnal yr ymholiadau llawnaf posib er mwyn i chi allu dangos bod y ffigurau ar y ffurflen hon yn gywir. Os na allwch ddod o hyd i werth eitem, cewch gynnwys eich amcangyfrif gorau.

Asedion a ychwanegir at yr ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant, pan nad oes angen grant cynrychiolaeth ar eu cyfer

9.1 **Rhoddion neu drosglwyddiadau oes (ar ôl didynnu eithriadau caniataol) a wnaed yn y 7 mlynedd cyn y farwolaeth. Nid yw hyn yn cynnwys cymynroddion yn yr ewyllys.**

Dangoswch y dyddiad a disgrifiad o'r rhoddion, i bwy gawsant eu gwneud ac unrhyw eithriadau rydych wedi'u didynnu, yn y blwch isod.

Blwch 9.1 £

9.2 **Cyfran yr ymadawedig o asedion a ddelir ar y cyd sy'n trosglwyddo'n awtomatig at y cyd berchennog sy'n goroesi, hyd yn oed os mai'r gŵr, gwraig neu'r partner sifil ydyw.**

Er enghraifft, tŷ sy'n cael ei berchen arno fel tenantiaid ar y cyd, cyfrifon banc ar y cyd neu nwyddau tŷ. Disgrifiwch yr ased a rhowch ei werth cyfan yn y blwch isod. Nodwch pa gyfran roedd yr ymadawedig yn berchen arni. Os mai tŷ ydyw, rhowch y cyfeiriad. Rhowch werth cyfran yr ymadawedig ym mlwch 9.2

Blwch 9.2 £

9.3 **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth at fudd yr ymadawedig yn ystod ei (h)oes.**

Rhowch wybod i ni pa asedion oedd yn yr ymddiriedolaeth, enw'r person a sefydlodd yr ymddiriedolaeth a'r dyddiad y'i sefydlwyd

Blwch 9.3 £

9.4 **Asedion enwebedig**

Blwch 9.4 £

9.5 **Asedion y tu allan i'r DU**

Blwch 9.5 £

Gwerth gros asedion pan nad oes angen grant ar eu cyfer (adiwch y ffigurau ym mlychau 9.1 i 9.5 at ei gilydd)

Blwch A £

Asedion yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth parhad

Dyledion sy'n daladwy o'r cyfanswm asedion ym mlwch A

10.1	**Cyfran o forgais ar eiddo sy'n cael ei berchen fel ased ar y cyd, a ddangosir ym mlwch 9.2**	Blwch 10.1	£
10.2	**Cyfran o ddyledion eraill sy'n daladwy o asedion ar y cyd**	Blwch 10.2	£
10.3	**Dyledion sy'n daladwy o asedion ymddiriedolaeth**	Blwch 10.3	£
10.4	**Dyledion sy'n ddyledus i bobl y tu allan i'r DU**	Blwch 10.4	£
	Cyfanswm y dyledion sy'n daladwy o'r asedion ym mlychau 9.1 i 9.5 (adiwch flychau 10.1 i 10.4 at ei gilydd)	Blwch B	£
	Gwerth net yr asedion lle nad oes angen grant (blwch A llai blwch B) (efallai bydd y gwerth hwn yn ddim)	Blwch C	£

Asedion yr ymadawedig y mae angen grant ar eu cyfer

Dylech gynnwys:

- y gwerth gros ar gyfer pob eitem cyn didynnu unrhyw eithriadau neu ryddhad
- pob ased, gan anwybyddu unrhyw newidiadau a allai ddigwydd drwy weithred amrywio a wnaed ar ôl y farwolaeth
- cyfran yr ymadawedig o unrhyw asedion mewn perchnogaeth ar y cyd sydd ddim yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r perchennog ar y cyd sy'n goroesi.

11.1	**Arian parod, gan gynnwys arian mewn banciau, cymdeithasau adeiladu a Chynilion Cenedlaethol**	Blwch 11.1	£
11.2	**Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol**	Blwch 11.2	£
11.3	**Stociau a chyfranddaliadau a restrir ar y Gyfnewidfa Stoc**	Blwch 11.3	£
11.4	**Stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru ar y Gyfnewidfa Stoc**	Blwch 11.4	£
11.5	**Polisïau yswiriant, gan gynnwys bonysau a pholisïau diogelu morgais**	Blwch 11.5	£
11.6	**Arian sy'n ddyledus i'r person a fu farw (benthyciadau heb eu had-dalu)**	Blwch 11.6	£
11.7	**Buddiannau partneriaeth a busnes**	Blwch 11.7	£
11.8	**Gwerth preswylfa rydd-ddaliadol/brydlesol y person a fu farw os oedd y berchenogaeth yn ei enw ei hun neu fel tenantiaid cydradd**	Blwch 11.8	£

Cyfeiriad preswylfa rydd-ddaliadol/brydlesol

Cod post

Asedion yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth parhad

11.9 **Gwerth preswylfa rydd-ddaliadol/brydlesol os oedd y berchenogaeth yn ei enw ei hun neu denantiaid cydradd**

Blwch 11.9 £

Cyfeiriad eiddo rhydd-ddaliadol/brydlesol

Cod post

11.10 **Gwerth tiroedd ac eiddo eraill os oedd y berchenogaeth yn ei enw/henw ei hun neu fel tenantiaid cydradd**

Blwch 11.10 £

Cyfeiriadau tiroedd ac eiddo eraill

Cod post

11.11 **Asedion eraill sydd heb ei gynnwys uchod, gan gynnwys, er enghraifft, ad-daliadau Treth Incwm ac unrhyw gyfandaliad neu daliadau sy'n parhau o gynllun pensiwn**

Blwch 11.11 £

Gwerth gros o asedion lle mae angen grant (adiwch flychau 11.1 i 11.11 at ei gilydd) (darllenwch 'Nodiadau' IHT206 (2011), tudalen 22)

Blwch D £

Dyledion yr ystâd sy'n daladwy o'r asedion a ddangosir ym mlychau 11.1 i 11.11

12.1 **Treuliau angladd**

Blwch 12.1 £

12.2 **Morgais neu gyfran o forgais ar eiddo neu dir ym mlychau 11.8 i 11.10**

Blwch 12.2 £

12.3 **Dyledion eraill sy'n ddyledus gan yr ymadawedig yn y DU**

Blwch 12.3 £

Cyfanswm y dyledion sy'n daladwy o'r asedion ym mlychau 11.1 i 11.11 (adiwch flychau 12.1 i 12.3 at ei gilydd)

Blwch E £

Ystâd net yn y DU os ydych yn gwneud cais am grant cynrychiolaeth (blwch d llai blwch E)

Blwch F £

Ystâd net at ddibenion Treth Etifeddiaeth (blwch C + blwch F)

Blwch G £

Gwerth gros at ddibenion Treth Etifeddiant (blwch A + blwch D) (darllenwch 'Nodiadau' IHT206(2011), tudalen 23)

Blwch H £

Asedion yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth parhad

Defnyddiwch y blwch hwn i nodi unrhyw wybodaeth arall yr ydym wedi gofyn amdani neu yr hoffech iddi gael ei hystyried

13

Asedion yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth parhad

Eithriadau

Darllenwch 'Nodiadau' IHT206(2011) cyn i chi lenwi'r adran hon.

Blwch J £

Ym mlwch J, rhowch werth unrhyw eithriad ar gyfer asedion sydd i'w trosglwyddo ar ôl marwolaeth i naill ai:
- **y priod neu'r partner sifil sy'n goroesi'r ymadawedig,**
- **elusen gymwys neu at ddibenion cenedlaethol**

Peidiwch â chynnwys rhyddhad busnes nac amaethyddol yma

Disgrifiwch faint yr eithriad. Os ydych yn cynnwys eithriad elusennol, rhowch enw llawn yr elusen/elusennau, y wlad sefydlu a chyfeirnodau'r elusen, os ydynt ar gael.
Pan fo eithriadau yn cynnwys asedion penodol, rhestrwch yr asedion hynny a dangoswch y swm sydd wedi ei gynnwys

14

Blwch K £

Gwerth cymhwyso net ar gyfer ystadau wedi'u heithrio (blwch G llai blwch J) (gall y gwerth hwn fod yn ddim)

Os yw'r gwerth ym mlwch K yn fwy na'r terfyn ystadau wedi'u heithrio, rhaid i chi lenwi ffurflen IHT400 oni bai eich bod yn hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei ddefnyddio. Os ydych yn hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei ddefnyddio, rhaid i chi atodi ffurflen IHT217 'Cais i drosglwyddo'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio ar gyfer ystadau wedi'u heithrio' wedi'i llenwi, i'r ffurflen hon.

Os canfyddwch fod rhywbeth wedi ei hepgor, neu os bydd unrhyw ffigurau a roddwyd yn y ffurflen hon yn newid yn nes ymlaen, bydd dim ond angen i chi roi gwybod i Gyllid a Thollau EM (CThEM) os, gan ddwyn yr holl hepgoriadau a newidiadau i ystyriaeth, yw gwerth blwch K yn uwch na'r haen cyfradd sero Treth Etifeddiant (neu ddwywaith yr haen cyfradd sero pan fo ffurflen IHT217 wedi ei chyflwyno).

Rhaid i chi wedyn lenwi ffurflen IHT400 a'i hanfon i CThEM. Bydd hefyd angen i chi dalu unrhyw dreth sy'n ddyledus.

Nid yw'r ffaith bod y grant yn cael ei roi yn golygu nad oes unrhyw Dreth Etifeddiant yn ddyledus ar yr ystâd hon.

Datganiad

Os ydych yn rhoi gwybodaeth anwir, neu os yw'r ystâd yn methu â chymhwyso fel ystâd wedi'i heithrio ac nad ydych yn rhoi gwybod i CThEM o fewn 6 mis o'r methiant yn dod i'ch sylw, efallai bydd yn rhaid i chi dalu cosbau ariannol neu wynebu erlyniad.

Rwyf/Rydym yn datgan bod gwerth gros yr ystâd ar gyfer Treth Etifeddiant (gweler blwch H ar dudalen 5) yn llai neu yn hafal i: ticiwch un blwch

y terfyn ystadau wedi'u heithrio ☐

ddwywaith y terfyn ystadau wedi'u heithrio, ac amgaeir cais i drosglwyddo haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio (ffurflen IHT217) ☐

£1 miliwn ac nid oes Treth Etifeddiant i'w thalu oherwydd eithriad priod, partner sifil neu elusen ☐

Rwyf/Rydym yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred/ein gwybodaeth a'n cred bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf/gennym ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. I gael help darllenwch 'Nodiadau' IHT206(2011), tudalen 25.

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB